



Adroddiad yr Adolygiad Ymarfer Plant

Adroddiad yr Adolygiad Ymarfer Plant

Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru

Adolygiad Ymarfer Plant Cryno SIR Y FFLINT 2019 1

Amlinelliad byr o'r amgylchiadau sy'n arwain at yr Adolygiad

Dylid cynnwys yma: -

- *Y cyd-destun cyfreithiol a geir mewn canllawiau o ran pa adolygiad sy'n cael ei gynnal*
- *Yr amgylchiadau a arweiniodd at yr adolygiad*
- *Y cyfnod dan sylw a pham*
- *Llinell amser gryno o ddigwyddiadau arwyddocaol i'w hychwanegu fel atodiad*

Fframwaith Cyfreithiol

Comisiynwyd Adolygiad Ymarfer Plant Cryno gan Fwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru ym mis Mawrth 2018. Cyflwynir y meini prawf ar gyfer Adolygiadau Ymarfer Plant yn y Rheoliadau Byrddau Lleol ar gyfer Diogelu Plant (Swyddogaethau a Gweithdrefnau) (Cymru) 2015.

Mae gan Fyrdau Rhanbarthol Diogelu Plant gyfrifoldeb statudol i gynnal Adolygiadau Ymarfer Plant Amlasiantaeth mewn amgylchiadau pan fo digwyddiadau arwyddocaol lle gwyddys neu lle amheuir achos o gam-drin neu esgeuluso plentyn.

Mae gan Fwrdd Diogelu gyfrifoldeb statudol i gynnal Adolygiad(au) Ymarfer Plant Amlasiantaethol mewn amgylchiadau pan fo digwyddiadau arwyddocaol lle gwyddys neu lle amheuir achos o gam-drin neu esgeuluso plentyn.

Rhaid i Fwrdd gynnal adolygiad ymarfer plant cryno yn unrhyw un o'r achosion canlynol yn ardal y Bwrdd lle gwyddys neu lle amheuir bod achos o gam-drin neu esgeuluso plentyn wedi digwydd a lle mae'r plentyn:

- Wedi marw;
neu
- Wedi cael anaf sy'n bygwth bywyd;
neu
- Wedi dioddef nam difrifol a pharhaol i'w iechyd neu ddatblygiad a bod y plentyn ddim ar y Gofrestr Amddiffyn Plant, nac yn Blentyn a oedd wedi Derbyn Gofal ar unrhyw ddyddiad yn ystod y 6 mis cyn
- dyddiad y digwyddiad y cyfeirir ato uchod;
neu
- Dyddiad y bu i'r Awdurdod Lleol neu'r asiantaeth bartner berthnasol nodi bod plentyn wedi dioddef nam difrifol a pharhaol i'w iechyd neu ddatblygiad.

Dylid nodi nad oedd y plentyn ar y Gofrestr Amddiffyn Plant nac yn Blentyn oedd yn Derbyn Gofal ar unrhyw ddyddiad yn ystod y 6 mis blaenorol.

Pwrpas yr Adolygiad yw nodi'r gwersi i'w ddysgu ar gyfer ymarfer yn y dyfodol. Mae'n cynnwys ymarferwyr, rheolwyr ac uwch swyddogion yn archwilio manylion a chyd-destun gwaith asiantaethau gyda phlentyn a theulu. Bwriedir i ganlyniad adolygiad arwain at waith dysgu proffesiynol a sefydliadol a hybu gwelliant mewn ymarfer amddiffyn plant rhyngasiantaethol yn y dyfodol.

Methodoleg

- Cynullwyd Panel Adolygu gyda Chadeirydd.
- Penodwyd dau Adolygydd.
- Datblygwyd llinell amser i bob asiantaeth a nodwyd.
- Cynhyrchwyd crynodeb / dadansoddiad o gyfranogiad pob gwasanaeth.
- Siaradodd yr adlygwyr â mam y plentyn a mam y fam.
- Lluniwyd Adroddiad Adolygu gyda phwyntiau dysgu a'i gyflwyno i'r Panel Adolygu.
- Bu i'r Panel Adolygu gyfarfod i gwblhau'r adroddiad.
- Datblygwyd cynllun gweithredu o'r argymhellion.
- Bu i'r Adolygwyr a Chadeirydd y Panel Adolygu gyflwyno'r Adroddiad Adolygu i'r Is-grŵp Adolygiad Ymarfer Plant Rhanbarthol a Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru.
- Cyflwyno i Lywodraeth Cymru.
- Adrodd yn ôl i'r Teulu.
- Cyhoeddi'r Adroddiad ar wefan Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru.

Llinell amser

Roedd y llinell amser ar gyfer yr Adolygiad o **1 Mawrth 2014** tan **29 Gorffennaf 2015**. Mae hyn yn cynnwys y cyfnod cyn genedigaeth y plentyn ac ymwneud y fam â gwasanaethau.

Gofynnwyd i asiantaethau hefyd ystyried eu hymwneud cyn y llinell amser, os oedd yn berthnasol. Roedd gwybodaeth ar gael ynglŷn ag ymwneud y fam â Gwasanaethau Iechyd Meddwl.

Yr amgylchiadau a arweiniodd at yr adolygiad

Ar 5 Gorffennaf 2014, cafodd y plentyn ei eni drwy doriad Cesaraidd a'i dderbyn i'r Uned Gofal Arbennig i Fabanod oherwydd ei fod wedi ei eni'n gynamserol. Cynhaliwyd cyfarfod cynllunio amlasiantaethol i gytuno ar y Cynllun Plentyn mewn Angen a chafodd ei ryddhau i fynd adref gyda'i fam ar 11 Gorffennaf 2014.

Ar 29 Gorffennaf 2015, cafodd y plentyn ei ganfod yn anymwybodol yn y bath ac fe'i cyhoeddwyd yn farw yn ddiweddarach wrth gyrraedd yr ysbyty. Yn ôl canfyddiadau cychwynnol ymchwiliad yr heddlu achos y farwolaeth oedd boddi trwy ddamwain.

Dangosodd ymholiadau pellach gan yr heddlu, tra bod y plentyn a'r efaill yn y bath, bod eu mam wedi bod yn siarad ar y ffôn am tua deugain a saith (47) o funudau â'i phartner. Yn syth ar ôl yr alwad, ffoniodd rif arall, a pharhaodd yr alwad ffôn am tua wyth (8) munud.

Roedd yr alwad 8 munud hon yn agos iawn at yr alwad a wnaed i'r Gwasanaeth Ambiwylans am gymorth. Yn dilyn marwolaeth y plentyn, codwyd pryderon diogelu gan deulu tad y plant. Nid oedd teulu'r tad wedi codi pryderon cyn hyn gan eu bod yn ofni y byddai'r fam yn atal pob cyswllt.

Am y rhesymau hyn, cychwynnwyd ymchwiliad gan yr heddlu i ymchwilio i achos posibl o Esgeulustod Plant ac i geisio deall sut y bu farw'r plentyn. O ganlyniad i ymchwiliad yr heddlu daethpwyd i'r casgliad bod digon o dystiolaeth o esgeulustod. Cynhaliodd Heddlu Gogledd Cymru drafodaethau pellach gyda Gwasanaeth Eryl y Goron ac aethpwyd ymlaen i gyhuddo'r fam o ddynladdiad ar sail esgeulustod. Yn y gwrandawriad llys ar 13 Mawrth 2019, cafwyd y fam yn euog o ddynladdiad drwy esgeulustod difrifol. O ganlyniad i'r dyfarniad euog, ailgyfeiriwyd yr achos i'r Grŵp Adolygu Ymarfer Plant ym mis Hydref 2018.

Cyfeiriwyd yr achos i ddechrau at Grŵp Adolygu Ymarfer Plant BDPGC ym mis Medi 2015. Penderfynwyd nad oedd y trothwy ar gyfer Adolygiad Ymarfer Plant wedi'i fodloni o ystyried bod y canfyddiadau cychwynnol yn nodi mai damwain oedd achos y farwolaeth. Fodd bynnag, yng nghyfarfod yr Adolygiad Ymarfer Plant a gynhaliwyd ym mis Hydref 2018 hysbyswyd y panel bod Heddlu Gogledd Cymru wedi cyhuddo'r fam o ddynladdiad ar sail esgeulustod. Cafodd ei dyfarnu'n euog maes o law ac felly barnwyd bod y trothwy ar gyfer Adolygiad Ymarfer Plant wedi'i fodloni.

Roedd yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol yn gwybod am y plentyn a'r efaill cyn y digwyddiad, ond nid oedd eu henwau ar y gofrestr amddiffyn plant ar adeg y farwolaeth, nac yn ystod y 6 mis cyn hynny.

Mae'r efaill yng ngofal mam y tad. Yn dilyn hyn dyfarnwyd Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig iddi a chyfrifoldeb rhiant.

Gwybodaeth Gefndir

Ar 14 Rhagfyr 2013, cysylltodd y fam â'r fydwraig gymunedol pan oedd 6 wythnos yn feichiog. Cadarnhaodd sgan 12 wythnos ei bod yn feichiog ac aeth y fam i'r apwyntiad cyntaf gyda'r Meddyg Teulu.

Cyn beichiogi, roedd y Gwasanaethau Camddefnyddio Sylweddau a'r Gwasanaethau Iechyd Meddwl Cymunedol yn gyfarwydd â'r fam. Er i'r llinell amser ddechrau pan gysylltodd y fam â gwasanaethau bydwreigiaeth, mae'n bwysig nodi bod y fam, cyn y cyfnod hwn, mewn cysylltiad â Gwasanaethau Iechyd Meddwl Oedolion. Yn ôl y cofnodion roedd mam dan ofal Seiciatrydd Ymgynghorol rhwng 4 Hydref 2012 a 20 Awst 2013. Gwnaed atgyfeiriad pellach i'r Gwasanaethau Iechyd Meddwl i Oedolion ar 6 Mawrth 2014 oherwydd hwyliau isel a chwblhawyd Asesiad Iechyd Meddwl gan Nyrs Seiciatrig Gymunedol. Yn ôl yr asesiad nid oedd gan y Fam unrhyw feddyliu seicotig na meddyliu hunanladdol, ac nid oedd yn dioddef o hwyliau isel. Cyfeiriodd y Gwasanaeth Iechyd Meddwl Cymunedol hi'n ôl at ei meddyg teulu a darparwyd presgripsiwn i'r fam ar gyfer cyffuriau gwrth-

iselder.

Tua 11 wythnos ers dechrau'r beichiogrwydd, cyfeiriodd y Fydwraig Gymunedol y fam at Fydwraig y Gwasanaeth Camddefnyddio Sylweddau (SMS) oherwydd bod ganddi hanes o gamddefnyddio sylweddau. Roedd gan y fam hanes o gamddefnyddio amffetaminau, canabis a MCAT. Ar y cychwyn ni chysylltodd y fam â'r Fydwraig SMS a threfnwyd ymweliad cartref ar 28 Ionawr 2014.

Cwblhaodd Bydwraig SMS asesiad cychwynnol ar 19 Chwefror 2014 ac roedd canlyniad prawf wrin ar gyfer sylweddau yn negatiff. Mae'r gwasanaeth bydwreigiaeth SMS yn wasanaeth dewisol ac ni chafwyd unrhyw ymyriad pellach yn dilyn yr asesiad. Y rhesymeg oedd bod y fam wedi dweud nad oedd yn defnyddio sylweddau mwyach. Nid oes tystiolaeth bod ystyriaeth wedi'i rhoi i gadw'r achos ar agor er mwyn cael cymorth i'w hatal rhag llithro'n ôl.

Ar 19 Mai 2014 cyflwynwyd atgyfeiriad Plentyn mewn Angen i'r Gwasanaethau Cymdeithasol gan Weithiwr Iechyd Proffesiynol, gan fod pryderon wedi'u nodi ar ôl cwblhau Asesiad Iechyd Cyn Geni (HPBA). Roedd y pryderon yn ymwneud â risgiau sy'n gysylltiedig â thad tybiedig yr efeilliaid heb eu geni, hanes camddefnyddio sylweddau a phroblemau tai.

Y penderfyniad a wnaed oedd agor yr achos o dan Plentyn Mewn Angen ac i Weithiwr Cymdeithasol gynnal Asesiad Risg Cyn Geni. Cwblhawyd y broses hon yn unol â'r Fframwaith Asesu.

Mae canllawiau ymarfer yn argymhell y dylai unrhyw weithiwr proffesiynol sy'n ymwneud â mam a'i phartner gynnal asesiad cyn geni er mwyn sefydlu eu hanes; naill ai o ran eu magwraeth, unrhyw bryderon am berthnasoedd neu blant blaenorol, yn gymdeithasol ac yn feddygol. Dylai hefyd sefydlu pa gymorth y gallai fod ei angen pan gaiff y baban ei eni. Yn unol â chyfrifoldebau diogelu, dylid ystyried niwed sylweddol gwirioneddol neu debygol i'r baban yn ystod beichiogrwydd ac ar ôl yr enedigaeth, a ph'un ai a oes angen asesiad risg cyn geni mwy ffurfiol. Arweinir yr asesiad hwn gan weithiwr cymdeithasol ac mae asiantaethau partner yn cyfrannu ato. Yr her ar gyfer asesiad o'r math hwn yw sicrhau bod y rhieni'n deall anghenion y baban disgwylidig a pha mor briodol yw eu paratodau. Y tro hwn, roedd nifer o heriau ar gyfer yr asesiad, gan nad oedd profiad blaenorol o rianta i'w ystyried.

Yn dilyn hyn, cynhaliwyd cyfarfod cynllunio amlasiantaethol ar 25 Mehefin 2014 a daeth y fam ynghyd â'i phartner newydd i'r cyfarfod. Yn y cyfarfod hwn amlinellwyd y Cynllun Plentyn mewn Angen arfaethedig. Cwblhawyd y broses hon o fewn y llinell amser ac roedd yn dilyn canllawiau ymarfer. Canfu'r broses fod gan y fam broblemau iechyd meddwl, gan ddatgelu bod hyn yn ymwneud â thrawma ar ôl iddi gael ei cham-drin yn rhywiol pan oedd yn ei harddegau. Pan gynhaliwyd cyfarfod y cynllun Plentyn mewn Angen, roedd y fam yn ymddangos yn iawn heb unrhyw anghenion iechyd meddwl amlwg a fyddai'n effeithio ar ei lles a'i gallu i fagu plant. Yn y Cynllun Plentyn mewn Angen, nodwyd bod y Fam yn cydnabod bod ganddi hanes o gamddefnyddio sylweddau ond ei bod wedi rhoi'r gorau i'w defnyddio ar ôl dod yn feichiog. Cwblhawyd prawf wrin ar ôl dau apwyntiad ac roedd y canlyniadau'n negatiff.

Ganed y baban ar 5 Gorffennaf 2014 a'i ryddhau o'r ysbyty yn dilyn cyfarfod cynllun rhyddhau ar 11 Gorffennaf 2014. Roedd yr holl ymarferwyr perthnasol yn bresennol yng nghyfarfod y cynllun rhyddhau ac roedd cynllun yn ei le. Yn y cyfarfod penderfynwyd y byddai'r fam a'r baban ar y cychwyn, yn aros gyda'i mam ar ôl gadael yr ysbyty, ac roedd ei phartner am gymryd amser i ffwrdd o'r gwaith i gynnig cymorth. Roedd y cynllun yn canolbwyntio ar gymorth ymarferol gan gynnwys anghenion tai ac asesiadau pellach o ran y tad tybiedig. Trefnwyd atgyfeiriad i Gweithredu ar gyfer Plant ar gyfer asesiad gofalyr diogel fel tasg gan y Gweithiwr Cymdeithasol.

Cynhaliwyd Cyfarfodydd adolygu Plant mewn Angen ar 20 Awst 2014 a'r 15 Hydref 2014 i fonitro cynnydd y cynllun. Roedd dogfennau'r adolygiad yn dangos bod y fam wedi ffurfio cyswllt da gyda'r baban a oedd yn ymddangos yn lân ac wedi'i wisgo'n briodol. Yn ogystal â hyn, cynhaliwyd Cyfarfod Grŵp Teulu ar 26 Medi 2014 lle'r oedd teulu'r fam yn bresennol. Pwrpas Cyfarfod y Grŵp teulu oedd rhoi cyfle i'r rhiant ynghyd â ffrindiau a theulu ddod at ei gilydd a chydlynu eu cynllun cymorth eu hunain.

Yn ystod cyfnod y cynllun Plentyn mewn Angen cychwynnol, dywedodd y fam wrth weithwyr proffesiynol fod y tad yn ffrind gwrywaidd. Yn ystod yr asesiad nodwyd bod Gwasanaethau Cymdeithasol yn gyfarwydd â'r Unigolyn hwn a'i fod yn cael ei ystyried yn risg i'w blant eraill. Gwybodaeth gyfyngedig sydd ar gael yn y dogfennau a welwyd i bwrpas yr adolygiad hwn. Rhoddwyd cyngor ac arweiniad priodol i'r fam ynghylch unrhyw gyswllt yn y dyfodol.

Yn ddiweddarach, ar ôl cael prawf DNA ar 14 Tachwedd 2014, gwelwyd mai ffrind arall i'r fam oedd y tad ac yn dilyn hyn, trefnwyd i gysylltu â mam y tad. Nodwyd bod yr asiantaethau'n gyfarwydd â'r unigolyn hwn oherwydd ei iechyd meddwl gwael.

Ar 30 Ionawr 2015, derbyniodd y Gwasanaethau Cymdeithasol alwad ffôn gan yr Ymwelydd lechyd yn mynegi pryderon am ymddygiad mam mewn llety i deuluoedd mewn Ysbyty Plant, lle'r oedd efaill y Plentyn yn glaf mewnol. Roedd yr efaill wedi'i dderbyn i'r ysbyty ar gyfer llawdriniaeth wedi'i chynllunio. Nodwyd yn y cofnodion bod golwg flêr ar yr efaill pan gafodd ei dderbyn i'r ysbyty. Roedd staff yr ysbyty wedi hysbysu'r Ymwelydd lechyd bod y Fam wedi derbyn rhybudd terfynol am ei hymddygiad ar ôl cael parti ac y gallai gael ei throï allan o lety'r ysbyty. Hefyd, roedd myfyriwr nyrsio wedi dweud wrth staff ei bod wedi arogleuo canabis ar y Fam. Cyflwynwyd atgyfeiriad pellach i'r Gwasanaeth Dyletswydd Brys ar 2 Chwefror 2015 gan fod staff yr ysbyty yn pryderu oherwydd diffyg ymateb y fam a'r olwg ddifynegiant ar ei hwyneb. Ychydig iawn o amser a dreuliodd y Fam gyda'r efaill tra oedd ar y ward. Ni phroseswyd yr atgyfeiriad fel atgyfeiriad amddiffyn plant ac felly ni fwriwyd ymlaen ag ymchwiliad adran 47.

Cyflwynwyd atgyfeiriad pellach ar 8 Chwefror 2015 gan staff yn yr Ysbyty Plant, gan godi pryderon ynghylch edrychiad y Fam, yr arogl alcohol oedd arni a'r ffaith ei bod yn siarad yn aneglur. Ni phroseswyd yr atgyfeiriad fel atgyfeiriad amddiffyn plant ac felly fwriwyd ymlaen ag ymchwiliad Adran 47. Yn dilyn yr atgyfeiriad ar 9 Chwefror 2015, cynhaliwyd dau ymweliad lles gan Weithiwr Cymdeithasol, fodd bynnag, nid oedd y fam wedi bod gartref ar y pryd. Ni chofnodwyd unrhyw wybodaeth bellach nes i'r cyfarfod Plentyn mewn Angen gael ei gynnal ar 17.02.2015.

Ar 17 Chwefror 2015 cynhaliwyd cyfarfod adolygiad Plentyn mewn Angen a'r penderfyniad a wnaed gan yr holl weithwyr proffesiynol hynny oedd y gellid cau'r achos ac y byddai cymorth yn cael ei ddarparu gan Dechrau'n Deg ac y dylai'r fam gael mynediad at grwpiau rhianta yn y gymuned. Roedd yn ymddangos bod elfennau o optimistiaeth broffesiynol ac er gwaethaf y pryderon a godwyd gan yr ysbyty, caewyd yr achos.

Ar 29 Gorffennaf 2015 yn anffodus bu farw'r plentyn a oedd yn destun yr adolygiad.

Barn y teulu

Bwriad yr adolygwyr oedd ymweld â'r fam yn y carchar i'w hysbysu o'r adolygiad ac i gael ei barn. Fodd bynnag, oherwydd Pandemig COVID-19, nid oedd hyn yn briodol a gyda chefnogaeth Swyddog Prawf Carchardai, siaradodd yr adolygwyr â'r fam ym mhresenoldeb y Swyddog Prawf dros y ffôn. Ni thynnodd y Fam sylw at unrhyw bryderon a dywedodd ei bod yn teimlo ei bod yn cael cefnogaeth dda gan bob asiantaeth ar y pryd. Nid oedd am ychwanegu unrhyw beth pellach.

Trefnodd yr adolygwyr i ymweld â mam y tad ym mis Mawrth 2020. Canslwyd yr apwyntiad hwn gan y nain oherwydd salwch. At ddibenion yr adolygiad hwn, cynhaliodd yr adolygwyr ymgynghoriad dros y ffôn â Mam y Tad ar 7 Hydref 2020. Roedd Mam y Tad yn awyddus i rannu, ei bod yn credu bod nifer o bryderon wedi'u hanwybyddu, yn enwedig pan oedd yr efaill yn glaf mewnol yn yr Ysbyty Plant. Aeth ymlaen hefyd i ddweud bod y fam yn dal i ddefnyddio cyffuriau ac alcohol pan gafodd y plentyn ei eni ac y byddai'n aml yn gadael y plentyn yng ngofal ffrindiau. Cred Mam y Tad fod llawer o arwyddion rhybudd a phe bai cefndir y fam wedi'i wirio'n iawn, efallai y byddai pethau wedi bod yn wahanol. Aeth Mam y Tad ymlaen i ddweud bod ei mab wedi ymweld ar un achlysur a bod caniau o alcohol yn yr ystafell a dim cynfasau yn y crud. Teimla Mam y Tad fod y fam yn gallu argyhoeddi gweithwyr proffesiynol ei bod yn ymdopi. Ni wnaeth Mam y Tad rybuddio'r awdurdodau am y pryderon hyn ar y pryd a dywedodd ei bod yn poeni y byddai'r fam yn atal ei holl gyswllt â'r plant.

Erbyn hyn, mae gan Fam y Tad Orchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig (SGO) a chyfrifoldeb rhiant am yr efaill. Mae'r efaill yn ffynnu, yn hapus ac yn gwneud yn dda iawn yn yr ysgol.

Digwyddiad Dysgu

Trefnwyd y byddai Digwyddiad Dysgu'n cael ei gynnal ar 25 Mawrth 2020. Yn anffodus, roedd hyn ddeuddydd ar ôl i gyfyngiadau symud llawn gael eu cyflwyno drwy'r wlad mewn ymateb i bandemig COVID-19.

Cyfarfu'r Cadeirydd a'r Adolygwyr i drafod ac ystyried sut y gallem fwrw ymlaen â'r adolygiad. Ystyriwyd nifer o ddulliau ac yn gryno:

- Teimlwyd nad oedd Digwyddiad Dysgu drwy lwyfan rhithwir yn briodol o ystyried sensitifrwydd y mater;
- Ystyriwyd Digwyddiad Dysgu o fewn gofynion cadw pellter cymdeithasol. Byddai'r gwaith lliniaru risg y byddai wedi bod angen ei wneud ar y pryd wedi bod yn sylweddol. Teimlwyd hefyd, er mwyn bwrw ymlaen â'r opsiwn hwn; byddem wedi bod yn pwysleisio cadw pellter corfforol pan fo angen i ni annog cydweithredu ac ymddiriedaeth;
- Penderfynwyd y byddai'r adolygwyr yn dysgu yn sgil gwaith a thrafodaethau'r panel hyd yma;
- Yna byddai'r adroddiad yn cael ei rannu â'r Panel Adolygu i fyfyrion arno a'i ystyried o fewn eu hasiantaethau mewn perthynas â Chynllun Gweithredu Dysgu y byddai modd ei gyflawni;
- Byddai cyfarfod o'r Panel Adolygu yn cael ei gynnal i roi cyfle i rannu adborth â'r adolygwyr;
- Byddai'r adolygwyr wedyn yn cwblhau'r adroddiad a'r argymhellion;
- Ni fyddai Digwyddiad Dysgu llawn yn cael ei gynnal. Fodd bynnag, pan fydd yr adroddiad yn cael ei gyhoeddi, bydd cyfle i asiantaethau gyfarfod y Cadeirydd a'r

adolygwyr i gael trafodaeth fyfyril;

- Ymgynghorwyd â Llywodraeth Cymru gan Reolwr Busnes BDPGC a daethpwyd i gytundeb y dylai bob panel ddatblygu eu strategaethau eu hunain ar gyfer casglu'r gwersi a ddysgwyd.

Ymarfer a dysgu sefydliadol

Nodwch bob pwynt dysgu unigol sy'n codi yn yr achos hwn (gan gynnwys amlygu ymarfer effeithiol) yn ogystal ag amlinelliad byr o'r amgylchiadau perthnasol.

(Gall amgylchiadau perthnasol sy'n cefnogi pob pwynt dysgu gael eu llywio gan yr hyn a ddysgwyd o gyswllt y teulu â gwahanol wasanaethau, safbwynt ymarferwyr a'u hasesiadau a'r camau a gymerwyd, safbwyntiau aelodau'r teulu, tystiolaeth am ymarfer a'i effaith, ffactorau cyd-destunol a heriau)

Cafwyd gwybodaeth am ymarfer a dysgu sefydliadol o'r canlynol:

- Paratoi dadansoddiad asiantaeth a llinell amser aml-asiantaeth gyfunol;
- Safbwynt y teulu
- Trafodaethau yng nghyfarfodydd y Panel Adolygu;
- Trafodaethau aelodau'r panel gydag ymarferwyr sy'n rhan o'r adolygiad;
- Dadansoddiad y Cadeirydd a'r Adolygwyr Annibynnol;
- Arfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

Amlygodd yr adolygiad arfer da yn ogystal â dysgu drwy gydol y broses. Mae'n bwysig nodi bod y gwersi a ddysgwyd yn sgil myfyrion ac edrych yn ôl.

Yr effaith ar y gallu i fagu plant o ran camddefnyddio sylweddau/iechyd meddwl

Un neges allweddol sy'n deillio o adolygiadau achosion difrifol ac adolygiadau ymarfer plant yw bod angen i ymarferwyr gasglu a dadansoddi gwybodaeth yn well; "rhaid eu hannog i fod yn chwilfrydig, ac i feddwl yn feirniadol ac yn systematig" i ddeall sut mae'r anawsterau sy'n effeithio ar deuluoedd yn rhyngweithio (Brandon et al, 2008, t98). Oni bai bod gweithwyr proffesiynol yn ddigon chwilfrydig, ni fydd cwestiynau'n cael eu gofyn a bydd gwybodaeth bwysig yn cael ei cholli.

Ar 26.03.2014 cychwynnwyd Asesiad Iechyd Cyn Geni (HPBA), roedd y fam yn 29 wythnos yn feichiog. Gwnaed atgyfeiriad Plentyn mewn Angen i'r Gwasanaethau Cymdeithasol ar 16 Mai 2014 oherwydd pryderon am y tad. Roedd yn hysbys mai dim ond gyda'i ferch hŷn yr oedd y tad yn cael cyswllt dan oruchwyliaeth. Neilltuwyd yr achos i Weithiwr Cymdeithasol ar 25 Mai 2014. Mae canllawiau arfer da yn argymhell bod yr asesiad yn dechrau ar yr 20fed wythnos o feichiogrwydd. Mae hyn yn rhoi digon o amser i gasglu gwybodaeth a chyfarfod y rhieni i gael eu barn ac i nodi gwasanaethau neu gymorth priodol i wella eu gallu i fagu'r plant cyn yr enedigaeth.

Yn ddiweddar, mae Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru wedi diweddarau'r Llwybr Cyn Geni Amlasiantaeth a gwblhawyd yn wreiddiol yn 2016, ac a adolygwyd ac a ddiweddarwyd ar 13 Medi 2019. Mae hyn yn rhoi arweiniad i weithwyr proffesiynol wrth ystyried nifer o ffactorau ond nid yw'n ystyried y risg bosibl sy'n gysylltiedig â genedigaethau lluosog.

<https://www.bwrddiogelugogleddcymru.cymru/polisiau-a-gweithdrefnau-plentyn/>

Cwblhawyd Asesiad Risg Cyn Geni a'r penderfyniad yn deillio ohono oedd y dylid gweithio mewn partneriaeth â'r fam o dan 'Gynllun Plant mewn Angen'. Ar yr adeg y gwnaed hyn, mae'r asesiad a gynhaliwyd gan y Gweithiwr Cymdeithasol yn dangos cydweithio da a chysylltwyd â nifer o asiantaethau gan gynnwys iechyd plant, iechyd meddwl a'r gwasanaeth camddefnyddio sylweddau. Gellid bod wedi dod â barn gweithwyr proffesiynol a oedd yn rhan o'r asesiad at ei gilydd yn well i lywio'r cynllun. Yn dilyn hyn cynhaliwyd cyfarfod cynllunio amlasiantaethol ac roedd y Fam ynghyd â'i phartner yn bresennol yn y cyfarfod. Roedd y cyfarfod hwn yn nodi'r cynllun Plentyn mewn Angen arfaethedig a chwblhawyd y broses hon o fewn y llinell amser a gan ddilyn canllawiau polisi ac ymarfer. Cynhaliwyd Cyfarfodydd dilynol i adolygu'r cynllun Plant mewn Angen i fonitro cynnydd y cynllun.

Er bod y cynllun Plentyn mewn Angen yn ystyried anghenion iechyd y plant, iechyd meddwl y fam a hanes camddefnyddio sylweddau, nid yw'n ymddangos bod y cynllun yn canolbwyntio'n glir ar ganlyniadau. Ers gweithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, mae'n ofynnol i bob cynllun ganolbwyntio ar ganlyniadau gyda phwyslais ar gydweithio. Daeth y ddeddf hon i rym ar 6 Ebrill 2016 ac mae'n cyflwyno fframwaith cyfreithiol penodol ar gyfer darpariaeth gofal cymdeithasol yng Nghymru. Mae sicrhau bod rhiant yn deall y rheswm pam fod gweithwyr proffesiynol yn cymryd rhan yn bwysig i lwyddiant cynllun. Nid oedd yn glir a oedd y cynllun yn canolbwyntio ar gymorth ymarferol i'r fam neu'r adolygiad a chynnydd datblygiad y plant a gallu eu mam i ddiwallu eu hanghenion.

Yn ogystal â hyn, roedd yn ymddangos bod llawer o'r wybodaeth a rannwyd gyda'r ymarferwyr wedi'i hadrodd gan y fam ei hun a byddai wedi bod o fudd i weithwyr proffesiynol ddangos mwy o chwilfrydedd proffesiynol. Byddai hyn wedi bod yn arbennig o berthnasol pan gafwyd galwad i'r Gwasanaethau Cymdeithasol o'r Ysbyty Plant yn ystod y cyfnod pan oedd yr efaill yn yr ysbyty. Mynegwyd pryderon bod y fam yn yfed alcohol ac yn ysmegu canabis tra oedd yn aros yn y llely ar gyfer rhieni.

Gwnaed yr atgyfeiriad i'r Gwasanaeth y Tu Allan i Oriau a'r Ymwelydd Iechyd. Nid yw'n glir pam na chafodd yr atgyfeiriad hwn ei ddatblygu fel Ymchwiliad Amddiffyn Plant Adran 47 o dan Ddeddf Plant 1989. Mae cofnodion yn dangos bod archwiliad lles wedi'i gynnal ond nad oedd y fam gartref. Er bod y fam wedi dweud ei bod wedi rhoi'r gorau i gamddefnyddio sylweddau yn ystod beichiogrwydd, mae'n rhaid bod y newid hwnnw yn ei ffordd o fyw wedi bod yn sylweddol ac mae tystiolaeth yn cefnogi nad oedd hyn yn wir. Ni cheir tystiolaeth bod ymholiadau pellach wedi'u gwneud ar ôl i'r plentyn gael ei dderbyn i'r ysbyty. Dywedodd y Fam nad oedd wedi cymryd unrhyw sylweddau anghyfreithlon ers 8 wythnos cyn ei beichiogrwydd. Fodd bynnag, yn ôl cofnodion mae gan y Fam ffordd o fyw anhrefnus ac mae camddefnyddio sylweddau'n rhan o'r bywyd hwnnw. Cwblhaodd y Fydwaig Camddefnyddio Sylweddau asesiad llawn ar 19.02.20. Datgelodd y Fam ei bod yn y gorffennol wedi defnyddio amffetaminau, canabis a MCAT ac alcohol ar benwythnosau. Mae hyn yn cwestiynu a oedd ymgais y Fam i ymatal rhag camddefnyddio sylweddau mor syml ag a nodwyd yn wreiddiol a bod angen ymchwilio ymhellach i hyn. Gallai'r Asesiad Cyn Geni fod wedi ystyried y mater hwn o ran yr hyn a ddeallwn am y cylch newid a chymhelliant y Fam i ymatal rhag camddefnyddio sylweddau yn y tymor hir.

Gwaetha'r modd, mae llithro'n ôl, wrth gael problemau dibyniaeth, yn gyffredin. Amcangyfrifir bod 40-60% o bobl sy'n cael trafferth gydag anhwylderau defnyddio sylweddau yn llithro'n ôl ar ryw adeg yn eu proses adfer. Mae'r broses o adfer ar ôl bod yn gaeth i sylweddau yn un gydol oes. Byddai angen i bobl sydd wedi mynd drwy broses ddadwenwyno ac adsefydlu ddysgu sut i fyw bywyd sobr, hyd yn oed gyda themtasiwn o'u cwmpas. Er y gallai ddod yn haws dros amser i fyw bywyd sobr, mae sbardunau sy'n gallu gwneud i berson lithro'n ôl. Yn aml, bydd y rhai sy'n dioddef o gaethiwed yn llithro'n ôl pan fyddant wedi cael profiadau heriol yn emosiynol, meddyliol neu'n gorfforol yn eu

bywydau a rhaid iddynt ddod o hyd i ffordd o ymdopi. Mae llithro'n ôl yn gyffredin yn enwedig ymysg menywod beichiog s'n wynebu'r straen ychwanegol o fod yn feichiog.

<https://www.drugabuse.gov/publications/drugs-brains-behavior-science-addiction/treatment-recovery>

Mae tair elfen i lithro'n ôl: emosiynol, meddyliol a chorfforol. Gall ddigwydd oherwydd bod unigolyn dan straen emosiynol, yn cael trafferth feddyliol gyda'i gaethiwed ac yn methu â gwrthsefyll yr awydd corfforol i gymryd y sylwedd mwyach.

Mae rhai sbardunau sy'n achosi i bobl lithro'n ôl, a'r mwyaf cyffredin yw iselder. Mae iselder yn achosi i bobl deimlo'n ddiwerth a diobaith. Mae'r teimladau hyn yn gwneud i sylweddau ymddangos fel opsiwn apelgar. Oherwydd pyliau digalon, byddai pobl yn teimlo na fyddent yn gallu rheoli eu hemosiynau a'u teimladau heb symbyliadau allanol. Mae blinder yn sbardun tebygol arall sy'n achosi i bobl lithro'n ôl. Mae diffyg cwsg a theimladau o flinder eithafol yn gwneud i unigolion chwilio am gysur.

Mae ymchwil yn dangos y gall 'y cysylltiad uniongyrchol' rhwng camddefnyddio sylweddau gan rieni a niwed posibl i blant fod yn anodd ei ddatrys oherwydd y tebygolrwydd y bydd y camddefnydd yn un o nifer o ffactorau sy'n bodoli. Gall profiadau'r rhieni eu hunain o esgeulustod, camdriniaeth neu drawma arall yn ystod eu plentyndod fod yn un o'r rhesymau pam eu bod yn camddefnyddio cyffuriau neu alcohol a gallant hefyd effeithio ar eu gallu i fagu plant. Efallai bod cam-drin domestig rhwng rhieni neu rhwng rhiant a phartner a/neu efallai y bydd gan un rhiant, neu'r ddau ohonynt, broblemau iechyd meddwl. Yn ogystal â hyn efallai y bydd gan y teulu broblemau tai, problemau digartrefed, ac yn ceisio ymdopi â thlodi (Forrester and Harwin, 2011; Cleaver et al, 2011; Taylor, 2013; Humphreys et al, 2005; Alcohol Concern, 2006).

Salwch Meddwl rhiant

Amcangyfrifir y bydd salwch meddwl yn effeithio ar 1 o bob 4 ohonom ar ryw adeg yn ein bywydau. Bydd llawer o blant yn tyfu i fyny gyda rhiant a fydd, rywbyrd, yn profi salwch meddwl. Bydd gan y rhan fwyaf o'r rhieni hyn afiechydon ysgafn neu fyrhoedlog, a fydd fel arfer yn cael eu trin gan eu Meddyg Teulu. Prin yw'r plant sy'n byw gyda rhiant sydd â salwch meddwl difrifol. Mae llawer mwy o blant yn byw gyda rhiant sydd â phroblem hirdymor, fel dibyniaeth ar alcohol neu gyffuriau, anhwylder personoliaeth neu *iselder* (Coleg Brenhinol y Seiciatryddion 2012).

Mae problemau'n fwy tebygol o godi os bydd plant:

- Wedi'u gwahanu dro ar ôl tro oddi wrth riant sydd angen mynd i'r ysbyty;
- Teimlo'n ansicr o'u perthynas â'r rhiant sydd â salwch meddwl;
- Bod anghenion sylfaenol yn cael eu hesgeuluso;
- Cael eu cam-drin yn gorfforol;
- Yn Ofalwr Ifanc;
- Cael eu bwlio neu eu pryfocio gan eraill;
- Clywed pethau angharedig yn cael eu dweud am eu rhiant/rhieni;
- Byw mewn tlodi, tai gwael neu fod sawl newid o ran cyfeiriad y cartref;
- Yn dyst i lawer o ddadleuon neu drais rhwng eu rhieni;
- Byw gyda gofalwyr sydd â hanes o beidio â chydymffurfio â thriniaeth / meddyginiaeth.

Mae ymchwil sy'n archwilio'r cysylltiadau rhwng gofal plant a salwch meddwl wedi dangos bod yr olaf yn ffactor arwyddocaol wrth ystyried diogelwch a lles y plentyn. Mae'n debygol yr effeithir, o leiaf, ar ansawdd y rhyngweithio rhwng y rhieni a'r plant. Mae angen ystyried cefnogi gallu'r oedolyn i fagu plant er mwyn diwallu anghenion ei blentyn/plant (Manning & Gregoire 2009).

Camddefnyddio sylweddau

Prin yw'r materion cymdeithasol sy'n effeithio mor gynhwysfawr ar gymdeithas â chamddefnyddio sylweddau. Mae llawer o blant a phobl ifanc sy'n byw gyda rhieni a gofalwyr sy'n camddefnyddio sylweddau yn dioddef ei effeithiau andwyol. Maent yn aml yn dioddef o esgeulustod, yn dyst i gamdrin domestig, ac yn cael eu heffeithio'n negyddol ganddo, ac maent mewn mwy o berygl o gamddefnyddio alcohol a chyffuriau anghyfreithlon eu hunain.

Awgryma ymchwil y gallai plant sy'n byw gyda rhieni sy'n camddefnyddio sylweddau fod â risg uwch o gael problemau iechyd meddwl eu hunain, bod ganddynt gyfradd uwch o ddefnyddio cyffuriau ac alcohol yn ystod glasoed, â lefel is o ddeallusrwydd a pherfformiad academiaidd, lefelau uwch o bryder ac iselder a llai o hunan-barch na'r norm.

Gall y plant hyn deimlo'n wahanol i'w cyfoedion ac efallai y byddan nhw'n poeni y gallai eu ffrindiau ddod i wybod bod eu rhiant/rhieni yn camddefnyddio cyffuriau. Felly, efallai y byddant yn colli agweddau ar blentyndod y mae llawer o blant yn eu cymryd yn ganiataol, er enghraifft, ffrindiau'n ymweld â nhw gartref, a chymryd rhan mewn defodau dymunol fel penblwyddi a'r Nadolig.

Fodd bynnag, cydnabyddir nad yw pob defnyddiwr sylweddau yn cael problemau wrth fagu plant (Llywodraeth Cynulliad Cymru (2008) Gweithio Gyda'n Gilydd i Leihau Niwed: Strategaeth Camddefnyddio Sylweddau Cymru 2008-2018 Caerdydd: Llywodraeth Cymru).

Mewn llawer o achosion, bydd angen gwneud asesiad, sy'n cynnwys y sylwedd(au) a ddefnyddir ac ymddygiad y rhieni, ac unrhyw effaith a gaiff hyn ar eu gallu i fagu plant.

Diben Cefnogi Plant, Cefnogi Rhieni: Protocol Amlasiantaeth ar gyfer Gogledd Cymru Rhieni â phroblemau iechyd meddwl difrifol a/neu sy'n camddefnyddio sylweddau: Fframwaith ar gyfer amddiffyn plant yw:

- Diogelu ac amddiffyn plant;
- Galluogi ymatebion cydlynol gan yr holl wasanaethau sy'n ymwneud â'r plentyn a'i deulu;
- Gwella cyfathrebu rhwng yr holl wasanaethau sy'n ymwneud â'r plentyn a'i deulu;
- Sicrhau bod y plant hynny a'r plant heb eu geni a allai fod mewn perygl o niwed yn cael eu hadnabod yn gynnar drwy asesu ar y cyd gan Wasanaethau Iechyd Meddwl Oedolion a Chamddefnyddio Sylweddau;
- Sicrhau bod effaith salwch meddwl rhieni a/neu gamddefnyddio sylweddau ar eu gallu i fagu plant yn cael ei hystyried gyda phwyslais arbennig ar yr effaith ar ddatblygiad y plentyn;
- Cefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau effeithiol a chydlynol i'r teuluoedd hyn.

Cymeradwywyd y protocol hwn yn wreiddiol yn 2012 ac mae wedi cael ei adolygu'n rheolaidd ers hynny. Rhaid i bob gweithiwr proffesiynol sy'n gweithio gydag oedolion ystyried yr effaith y gallai edrychiad/cyflwr yr oedolyn fod yn ei chael ar blant yn eu gofal. Rhaid i anghenion diogelu'r plant gael eu cynnwys mewn asesiadau o anghenion yr oedolion.

Nid oes cyfeiriad at y Protocol hwn yn unrhyw un o'r dogfennau a ddarparwyd ar gyfer yr adolygiad hwn.

Chwilfrydedd proffesiynol, smalio cydymffurfio ac ystyried rheol optimistiaeth

Dywedir bod gan y Fam hanes o gamddefnyddio sylweddau ac ymddengys y cyfeiriwyd at hyn ond na wnaed dadansoddiad manwl. Roedd y plant bob amser yn daclus ac, ar y cyfan, roedd y fam yn ymgysylltu'n dda â gwasanaethau cymorth. Fodd bynnag, ymddengys mai cyfyngedig yw'r pryderon a godwyd gan weithwyr proffesiynol o ran y dadolaeth, ei chysylltiad a'i pherthynas â dynion oedd yn hysbys i'r gwasanaethau cymdeithasol ac a ystyrid yn risg. Amlygodd y fam ymddygiad cymryd risgiau yn ei bywyd ei hun drwy gamddefnyddio sylweddau a pherthnasoedd anhrefnus. Nid yw'n ymddangos bod unrhyw ystyriaeth gan weithwyr proffesiynol o sut y gallai hyn fod wedi effeithio ar ei gallu i fagu plant. Mae Jones et al (2019) yn dadlau ei bod felly'n bwysig i unrhyw asesiad o rianta roi dealltwriaeth glir a chywir nid yn unig o anghenion y plentyn, ond hefyd ei brofiadau o'r perthnasoedd yn ei fywyd. Wrth bwysio a mesur, byddai wedi bod o fudd ymchwilio ymhellach i berthnasoedd y Fam a ph'un ai a oedd y rhain yn amlygu ymddygiad cymryd risgiau pellach a allai effeithio ar ei gallu i fagu plant.

Er bod y fam yn mynychu'r rhan fwyaf o'r apwyntiadau, roedd rhai dangosyddion ymddygiad y cyfeirir atynt fel 'smalio cydymffurfio'. Daeth 'smalio cydymffurfio' i'r amlwg gyntaf yn Reder et al. (1993) ac fe'i defnyddiwyd i ddisgrifio ymddygiad rhieni neu ofalwyr â chyfnodau o ddiffyg ymgysylltu â gweithwyr proffesiynol. Fe'i defnyddir amlaf fel ffordd o fynegi pryderon neu anawsterau ymarferwyr wrth weithio gyda theuluoedd sy'n ymddangos fel pe baent yn ymgysylltu'n arwynebol â gweithwyr cymdeithasol neu weithwyr proffesiynol eraill ac nad ydynt wedi gwir ymrwymo i newid. Weithiau, nid yw'r rheswm a roddir ar y cychwyn gan riant i esbonio pam fod rhywbeth yn digwydd neu ddim yn digwydd yn rhoi'r gwir ddarlun o'r hyn sy'n digwydd. Efallai na fydd rhieni am ddatgelu'r gwir reswm gan fod ofn arnynt ddangos eu bod yn cael trafferth ymdopi neu rhag siomi'r gweithwyr proffesiynol dan sylw. Efallai bydd rhieni'n ceisio cymryd barn benodol am gyfranogiad proffesiynol yn eu bywyd, neu'n tynnu'n ôl o'r berthynas yn gyfan gwbl.

Fodd bynnag, mae angen i ni geisio myfyrio'n barhaus ar ein hymarfer drwy gydol y berthynas ac yn enwedig os bydd ymgysylltiad rhieni'n newid. Ffordd ddefnyddiol o ddangos tystiolaeth o hyn yw defnyddio cronoleg, a fydd yn helpu i ganfod patrymau ymddygiad neu adegau o ymgysylltu gwael. Gall sefyllfa gymhleth pan fydd rhieni wedi dechrau tynnu'n ôl ddirywio hyd yn oed ymhellach os ydynt yn teimlo eu bod yn cael eu stereoteipio fel 'rhieni gwael'. Fel y nododd Webb (2006), gall y trallod y gellir ei achosi gan gam-adnabod canfyddedig arwain at rieni'n ymateb drwy ymddieithrio, teimlo gelyniaeth a dicter. Gall hyn nid yn unig ysgogi gwrthdaro rhwng ymarferwyr a rhieni ond hefyd olygu bod rhieni'n teimlo nad oes fawr o bwynt ceisio sicrhau newid os ydyn nhw eisoes yn cael eu hystyried yn fethiant.

O fewn y llinell amser mae gwybodaeth yn ymwneud ag iechyd meddwl gwael y fam. O fewn adroddiadau'r gweithwyr cymdeithasol cydnabyddir bod y fam yn cael fluoxetine ar bresgripsiwn ar gyfer iselder. Fodd bynnag, nid yw'n glir a wnaed unrhyw ymholiadau ffurfiol gyda'r meddyg teulu i ganfod a oedd y feddyginiaeth hon wedi'i hadolygu a bod cytundeb â'r fam ynglŷn â'i meddyginiaeth. Gallai dadansoddiad pellach o'r wybodaeth ar gael fod wedi nodi unrhyw bryderon diogelu posibl.

Awgrymiadau allweddol i'w hystyried:

Marwolaeth drwy fodd.

Roedd y fam wedi cael y wybodaeth am ddiogelwch yn y cartref a diogelwch bath ar ddau achlysur

gan yr Ymwelydd lechyd ond mae'n anodd mesur dealltwriaeth y fam o'r risgiau. Fodd bynnag, dim ond un sedd bath oedd gan y fam. Nid yw hyn yn anarferol gan fod modd molchi'r ddau blentyn ar wahân a rhannu sedd y bath. Ar adeg y farwolaeth roedd y plentyn a'r efell yn y bath gyda'i gilydd, ond mae tystiolaeth nad oedd sedd y bath yn cael ei defnyddio.

Cyfyngedig yw'r ymchwil berthnasol sydd ar gael mewn perthynas â marwolaethau plant drwy fodd gan fod y rhan fwyaf o'r ymchwil yn canolbwyntio ar farwolaeth drwy fodd mewn pyllau nofio neu yn y môr. Mae ymchwil yn awgrymu nad yw Addysg Diogelwch yn y Cartref Aml-Ran yn effeithiol i atal plant rhag cael eu gadael ar eu pennau eu hunain yn y bath (Kendrick & Colleagues 2012). Nodir bod diffyg tystiolaeth fod yr holl ymyriadau diogelwch yn effeithiol o ran atal plant rhag cael eu gadael ar eu pennau eu hunain yn y bath. Mae adolygiad o'r defnydd o seddi bath sy'n seiliedig ar ddwy astudiaeth yn dod i'r casgliad bod cysylltiad rhwng goruchwylio a risg boddi (Purnell & McNaught 2008). Daw'r Adroddiad (RSPoAr 2015) i'r casgliad bod diffyg goruchwylio plant ifanc yn y bath yn peri risg o fodd. Gall rhieni fod â gormod o ffydd yng ngallu plentyn i gadw'n ddiogel mewn dŵr a thanbriso peryglon y dŵr ei hun. Gall risgiau yn y cartref gael eu hanwybyddu oherwydd bod pobl yn teimlo'n ddiogel mewn amgylchedd cyfarwydd. Mae angen atgoffa rhieni o'r peryglon a'r angen i oruchwylio plant ifanc ym mhob lleoliad lle ceir dŵr, gan gynnwys o'r adeg y dechreuir rhedeg y bath nes ei fod wedi'i ddraenio, pyllau padlo sy'n cynnwys unrhyw ddŵr, casgenni dŵr heb gaead, tybiau poeth heb eu cloi a'r risgiau yng ngerddi cymydog (Adolygiad thematig o farwolaethau plant a phobl ifanc drwy fodd - Rhaglen Adolygu Marwolaethau Plant. Iechyd Cyhoeddus Cymru 2016.)

Smalio Cydymffurfio Cyn geni

Roedd yr Ymwelydd lechyd wedi cynnal ymweliadau cynenedigol yn unol â Chanllawiau Dechrau'n Deg. Roedd dau apwyntiad 'na fynychwyd' gyda'r Fydwraig Camddefnyddio Sylweddau a'r Nyrs Seiciatrig Gymunedol. Cynigiodd y Fydwraig Camddefnyddio Sylweddau apwyntiad mewn lleoliad arall a oedd yn nes at gyfeiriad cartref y fam ar ôl iddi fethu 2 apwyntiad clinig ar gyfer cael ei hasesu. Cynhaliwyd prawf wrin i ganfod sylweddau 8 wythnos ar ôl yr apwyntiad cychwynol gyda'r gwasanaeth, 11 wythnos ar ôl atgyfeirio. Byddai'r sampl wrin wedi'i ddarparu a'i brofi'n gynharach pe bai'r fam wedi dod i'r apwyntiadau. Dim ond drwy fynd i apwyntiad arall y bu modd i'r Fydwraig Camddefnyddio Sylweddau gael sampl wrin gan y Fam. Manteisiodd y Fydwraig Camddefnyddio Sylweddau a'r Nyrs Seiciatrig Gymunedol ar y cyfle i fynd i glinig cynenedigol i weld y fam er mwyn cael y sampl wrin. Ystyrir bod hyn yn arfer da.

Ar ôl Geni

Roedd tystiolaeth yn y cofnodion iechyd bod ymgysylltiad y fam â gwasanaethau ond yn dda pan oedd gweithwyr proffesiynol yn ymweld â'r cartref. Roedd yn rhaid i'r Ymwelydd lechyd hwyluso'r broses o gofrestru genedigaeth y plentyn drwy gysylltu â'r cofrestrydd, a chofrestrwyd yr enedigaeth ar y diwrnod olaf o fewn yr amserlen gyfreithiol. Yn ogystal â hyn, aed â'r plentyn i apwyntiad dilynol pediatrig arferol ar ôl iddo gael ei ryddhau o'r Uned Gofal Arbennig i Fabanod. Er nad oedd cyflwr y cartref yn peri pryder sylweddol, roedd yr Ymwelydd lechyd yn allweddol i sicrhau bod y cartref yn cael ei dacluso er mwyn gwneud lle i'r baban. Methodd y Fam â mynd â'r baban am y ddau frechiad cyntaf ac aildrefnodd yr Ymwelydd lechyd yr apwyntiadau i sicrhau bod y brechiadau diweddaraf yn cael eu rhoi. Methodd y Fam â mynychu apwyntiad meddyg teulu i adolygu'r feddyginiaeth ar gyfer ei hwyliau isel, nid oedd unrhyw ystyriaeth ar y pryd ynghylch sut y gallai hyn fod wedi effeithio ar ei gallu i fagu plant. Cafodd dau gyfarfod Plentyn Mewn Angen eu canslo gan y fam a'r rheswm a roddwyd oedd bod y fam allan o'r ardal ar y pryd. Gallai hyn awgrymu nad oedd y fam yn blaenoriaethu anghenion y plant.

Gweld drwy lygaid y plant

Dyweddodd yr Ysbyty Plant fod y fam wedi bod dan ddylanwad alcohol a bod arogl cannabis arni tra oedd yr efell yn glaf mewnol. Nid yw'n glir a wnaed atgyfeiriad ffurfiol ai peidio i Wasanaethau Cymdeithasol yr Awdurdod Lleol a chaewyd yr achos ddau fis yn ddiweddarach yn dilyn trafodaeth mewn cyfarfod Plant mewn Angen. Yn ogystal â hyn, codwyd pryderon am y fam tra oedd yn yr ysbyty ynglŷn â'r amser cyfyngedig oedd hi'n ei dreulio gyda'r plentyn. Os ydym am ystyried hyn drwy lygaid plentyn, mae'n rhaid bod hwn wedi bod yn brofiad gofidus. Byddai'r plentyn wedi bod ar ei ben ei hun heb ei brif ofalwr, mewn lle dieithr, anghyfarwydd. Roedd hwn yn ddangosydd clir nad oedd y fam yn blaenoriaethu ei phlentyn.

Yn ogystal â hyn, nid oes unrhyw ffocws ar y plentyn mewn perthynas â mater tadolaeth. Ar y dechrau, enwodd y fam un gŵr fel y tad. Roedd y fam yn caniatáu i'r plentyn gysylltu â'r gŵr hwn: gan roi cyfle i ymlyniad ddatblygu. Yn ddiweddarach, pan ddechreuodd y gŵr hwn wneud honiadau o ddefnyddio cyffuriau, enwodd y fam ŵr arall fel y tad. Dangosodd tystiolaeth DNA fod hyn yn wir: a therfynodd cyswllt y plentyn â'r gŵr cyntaf. Nid yw'n glir pa berthynas oedd gan y plant â'r dynion hyn yn eu bywydau a ph'un ai a ddatblygodd y plant ymlyniad â'r gŵr cyntaf. O wybod yr hyn a wyddom am effaith torri ar ymlyniadau yn gynnar mewn bywyd, gallai hyn fod wedi bod yn ffocws perthnasol i weithwyr proffesiynol os oeddent yn gweld y byd drwy lygaid plentyn.

Nid oedd yn ymddangos bod unrhyw bryder wedi'i godi nad oedd y fam yn blaenoriaethu anghenion yr efeilliaid na phwysigrwydd cymryd rhan yn y broses Plentyn mewn Angen. Cafwyd nifer o ymweliadau lle na chafwyd mynediad, canslwyd ymweliadau a methwyd apwyntiadau, a oedd yn arwydd o smalio cydymffurfio. Mae'n bosibl bod gweithwyr proffesiynol yn canolbwyntio gormod ar sicrhau nad oedd y fam yn llithro'n ôl, ac nad oeddent yn gweld digwyddiadau drwy lygaid y plant. Mae penderfyniadau'r Fam yn codi'r cwestiwn 'sut ydyn ni'n gwybod mai'r plant yw'r flaenoriaeth a beth yw'r ffactorau eraill yn y sefyllfa hon sy'n denu sylw Mam ar ei phen ei hun sy'n ceisio ymdopi ag efeilliaid'? Roedd y dangosyddion cymryd risgiau, ffordd o fyw anhrefnus yn amlwg a gellid bod wedi ystyried hyn mewn perthynas â'i gallu i fagu plant yn ddiogel.

Arfer Da

Er bod gweithwyr proffesiynol yn ymwybodol o anawsterau'r fam o ran perthnasoedd, ni archwiliwyd hyn mewn perthynas â'r effaith bosibl ar allu'r fam i ganolbwyntio ar yr efeilliaid.

Gweithiodd ymarferwyr yn dda iawn gyda'i gilydd ac mae tystiolaeth o gyfathrebu a chadw cofnodion rhagorol.

Roedd gwasanaethau meddygon teulu yn cael eu darparu'n briodol, ond roedd llythyr rhybudd wedi'i anfon gan ei bod wedi methu apwyntiadau. Roedd rhai pryderon hefyd ynglŷn â chyfathrebu rhwng Meddygon yn yr Ysbyty Cyffredinol Dosbarth Lleol a'r meddyg teulu mewn perthynas â meddyginiaeth ragnodedig.

Mae'r Adolygwyr wedi nodi gwersi ar gyfer gwelliannau wrth ymarfer yn y meysydd canlynol:

- Smalio Cydymffurfio a Chwilfrydedd Proffesiynol;
Mae'r adolygwyr yn cydnabod bod Smalio Cydymffurfio yn bwynt dysgu a nodwyd mewn Adolygiad Ymarfer Plant blaenorol, BDPGC 2018 Adolygiad Ymarfer Plant Wrecsam 1. Cam

gweithredu o'r Adolygiad Ymarfer Plant hwn oedd datblygu Protocol Amlasiantaethol: Gweithio gyda Theuluoedd sy'n dangos arwyddion o Smalio Cydymffurfio; Mewn Adolygiad Ymarfer Plant arall, Adolygiad Ymarfer Plant Cryno Conwy 2019/1 nodwyd Chwilfrydedd Proffesiynol fel pwynt dysgu. Cam gweithredu o'r Adolygiad Ymarfer Plant hwn oedd y dylai bob asiantaeth adolygu eu pecynnau hyfforddi a darparu sicrwydd bod hyfforddiant yn datblygu sgiliau'r gweithlu o ran chwilfrydedd proffesiynol. Felly dysgir gwersi;

- Cydnabod ac ymdrin â Chamddefnyddio Sylweddau gan Rieni ac Iechyd Meddwl a'r effaith ar allu rhieni i fagu plant;
- Codi ymwybyddiaeth bellach mewn perthynas â Phrotocol Amlasiantaethol 'Cefnogi Plant, Cefnogi Rhieni: Protocol Amlasiantaeth Gogledd Cymru.

Hoffai'r adolygwyr gydnabod y cyfraniad a wnaed i'r broses hon gan bob asiantaeth. Gwerthfawrogyd eu hymwneud a'u cydweithrediad.

Gwella Systemau ac Ymarfer

Er mwyn hyrwyddo'r gwersi a ddysgwyd o'r achos hwn mae'r adolygiad wedi nodi'r camau gweithredu canlynol ar gyfer y Bwrdd a'i asiantaethau yn ogystal â'r canlyniadau disgwylidig:-

(yr hyn y mae angen ei wneud yn wahanol yn y dyfodol a sut y bydd hyn yn gwella ymarfer a systemau yn y dyfodol i gefnogi'r ymarfer)

Argymhellion

- Hyrwyddo ac ail-lansio Cefnogi Plant, Cefnogi Rhieni: Protocol Amlasiantaeth Gogledd Cymru;
- Datblygu pecynnau hyfforddi a Briffio 7 Munud i gynorthwyo gweithwyr proffesiynol i godi eu hymwybyddiaeth o gamddefnyddio sylweddau a rhianta;
- Dylid ystyried asesiad unigol ar gyfer menywod beichiog, gan gynnwys beichiogrwydd lluosog, gyda hanes o gamddefnyddio sylweddau. Dylid neilltuo'r achos ar gyfer ymyriadau i atal menywod rhag llithro'n ôl;
- Bod BDPGC yn datblygu taflen gwybodaeth am ddiogelwch amlasiantaethol sy'n amlygu'r risgiau sy'n gysylltiedig â molchi baban.

Datganiad gan Adolygydd/wyr

ADOLYGYDD 1		ADOLYGYDD 2 (fel y bo'n briodol)	
Datganiad ynghylch bod yn annibynnol ar yr achos <i>Sicrhau Ansawdd - Datganiad ynghylch cymhwysedd</i>		Datganiad ynghylch bod yn annibynnol ar yr achos <i>Sicrhau Ansawdd - Datganiad ynghylch cymhwysedd</i>	

<p>Rwyf yn datgan bod y canlynol yn wir cyn i mi ddechrau ymwneud â'r adolygiad dysgu hwn:-</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ni fûm yn ymwneud yn uniongyrchol â'r plentyn neu'r teulu, ac ni roddais gyngor proffesiynol ynghylch yr achos. • Nid wyf wedi bod yn rheolwr llinell uniongyrchol i'r ymarferwr/ ymarferwyr dan sylw. • Mae gennyf y cymwysterau cydnabyddedig, yr wybodaeth a'r profiad priodol ac rwyf wedi cael hyfforddiant priodol i gynnal yr adolygiad. • Cynhaliwyd yr adolygiad yn briodol ac roedd yn drwyadl o ran y modd y bu'n dadansoddi ac yn gwerthuso'r materion a nodwyd yn y cylch gorchwyl. 	<p>Rwyf yn datgan bod y canlynol yn wir cyn i mi ddechrau ymwneud â'r adolygiad dysgu hwn:-</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ni fûm yn ymwneud yn uniongyrchol â'r plentyn neu'r teulu, ac ni roddais gyngor proffesiynol ynghylch yr achos. • Nid wyf wedi bod yn rheolwr llinell uniongyrchol i'r ymarferwr/ ymarferwyr dan sylw. • Mae gennyf y cymwysterau cydnabyddedig, yr wybodaeth a'r profiad priodol ac rwyf wedi cael hyfforddiant priodol i gynnal yr adolygiad. <p>Cynhaliwyd yr adolygiad yn briodol ac roedd yn drwyadl o ran y modd y bu'n dadansoddi ac yn gwerthuso'r materion a nodwyd yn y cylch gorchwyl.</p>		
<p>Adolygydd 1 (Llofnod)</p> <p>Enw (Priflythrennau)</p> <p>Dyddiad</p>	<p><i>L. M. Collier</i></p> <p>Lynda Collier Rheolwr Diogelu Ardal BIPBC</p> <p>04.02.2021</p>	<p>Adolygydd 2 (Llofnod)</p> <p>Enw (Priflythrennau)</p> <p>Dyddiad</p>	<p><i>C. Thomson</i></p> <p>Cindy Thomson Rheolwr Gwasanaeth Diogelu Sir Ddinbych</p> <p>04.02.2021</p>

Deunydd Cyfeirio

Brynna, K & Taylor A (2007) Community Care Inform (2007) Research: How parental substance misuse affects children: lessons from research.

Calder, M C (2013) 'Pre-birth assessments: context, content & collaboration' In: Calder, M C and Hackett, S (eds) Assessments in child care: Volume 2. Theory, research and practice applications. Dorset: Russell House Publishing

Cleaver, H, Unell, I and Aldgate, J (2011) Children's Needs: Parenting Capacity. Child abuse: Parental mental illness, learning disability, substance misuse, and domestic violence (2^{il} argraffiad)

Forrester D & Harwin J (2011) Parents who misuse drugs and alcohol: Effective Interventions in Social Work and Child Protection. John Wiley & Sons pub

Humphreys C, Regan L, River D & Thiara RK (2002) Domestic Violence and Substance use: Tackling complexity. British Journal of Social Work 35(8):1301-1320

Jadwiga L (2018) Community Care Inform: Practice Guidance, Disguised compliance' a relationship-based approach.

Jones, D., Hadcroft, L. & Platt, D. 2019. Contemporary perspectives on parenting assessment. In: Horwath, J. & Platt, D. (eds.) The Child's World: The essential guide to assessing vulnerable children, young people and their families. London: Jessica Kingsley.

Kendrick, D, Coupland, C, Mulvaney, C 9 2012) Home safety education and provision of safety equipment for injury prevention. Cochrane Database of Systematic Reviews, 2012.

Manning C & Gregoire A (2009) Effects of Parental Illness on Children. Psychiatry Vol 8 Iss 1.

Mc Govern R (2010) Practice Guidance- Community Care Inform: Child development: the impact of parental substance misuse; Awdur: Ruth McGovern. Diweddardwy 2011, 2016.

Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru (2015) Adroddiad adolygu tystiolaeth ymchwil i Dîm y Rhaglen Adolygu Marwolaethau Plant. Boddi ymysg pant a phobl ifanc. (Saesneg yn unig) Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Purnell M and McNoe B. (2008). Systematic review of drowning interventions and risk factors and an international comparison of water safety policies and programs. Otago: University of Otago. Ar gael ar: <http://www.srknowledge.org.nz/research-completed/systematic-review-of-drowning-interventions-and-risk-factors-and-an-international-comparison-of-water-safety-policies-and-programs>

Reder P, Duncan S, Gray M (1993) Beyond Blame: Child Abuse Tragedies Revisited. London: Taylor and Francis

Coleg Brenhinol y Seiciatryddion (2012) Mental Health and Growing Up Factsheet: Parental Mental Illness: The impact on children and adolescents. RCPSYCH.

Symonds J (2019) Community Care Inform: Practice Guidance, Parenting assessments.

Taylor A (2013) The impact of parental substance misuse on child development. Research in practice: Frontline pub.

Rheoliadau Byrddau Diogelu (Swyddogaethau a Gweithdrefnau) (Cymru) 2015 Webb. S.A (2006) Gwaith Cymdeithasol mewn Cymdeithas Risg: Persbectif Cymdeithasol a Gwleidyddol. (Saesneg yn unig)

Llywodraeth Cymru (2008) Gweithio Gyda'n Gilydd i Leihau Niwed: Strategaeth Camddefnyddio Sylweddau Cymru 2008 - 2018. Llywodraeth Cymru Caerdydd.

Llywodraeth Cymru, (2014), Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014: Gweithio Gyda'n Gilydd i ddiogelu Pobl: Cyfrol 5 – Ymdrin ag Achosion Unigol i Amddiffyn Plant sy'n wynebu Risg. Caerdydd: Cyhoeddiad Llywodraeth Cymru.

Cylch Gorchwyl ar gyfer Adolygiad Ymarfer Plant Cryno Adolygiad Ymarfer Plant BDGC Sir y Fflint 2019/1

Tasgau craidd

- Penderfynu a yw'r penderfyniadau a'r camau gweithredu yn yr achos yn cydymffurfio â pholisi a gweithdrefnau'r Bwrdd a'r gwasanaethau a enwir.
- Archwilio gwaith rhngasiantaethol a'r ddarpariaeth o ran gwasanaethau i'r plentyn a'r teulu. Penderfynu i ba raddau yr oedd y penderfyniadau a'r camau gweithredu yn canolbwyntio ar yr unigolyn.
- Ceisio cyfraniadau i'r adolygiad gan aelodau priodol o'r teulu a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt am agweddau allweddol ar gynnydd.
- Ystyried unrhyw ymchwiliadau neu weithrediadau cyfochrog sy'n gysylltiedig â'r achos.
- Cynnal digwyddiad dysgu i ymarferwyr a nodi'r adnoddau gofynnol.

Tasgau penodol y Panel Adolygu

- Dewis a chomisiynu adolygydd/adolygwyr i weithio gyda'r Panel Adolygu yn unol â'r canllawiau ar gyfer adolygiadau cryno ac estynedig.
- Cytuno ar y llinell amser.
- Nodi asiantaethau, gwasanaethau perthnasol a gweithwyr proffesiynol i gyfrannu i'r adolygiad, llunio llinell amser a chrynodeb cychwynnol o'r achos a nodi unrhyw gamau gweithredu a gymerwyd eisoes yn syth.
- Llunio llinell amser gyfun, dadansoddiad cychwynnol a rhagdybiaethau.
- Gweithio gyda'r adolygydd/adolygwyr i gynllunio digwyddiad dysgu i ymarferwyr, a ddylai gynnwys camau i nodi'r sawl a ddylai fynychu, y trefniadau ar gyfer eu paratoi a'u cefnogi cyn y digwyddiad ac ar ei ôl, a'r trefniadau ar gyfer rhoi adborth.
- Gweithio gyda'r adolygydd/adolygwyr i gynllunio trefniadau ar gyfer cysylltu â'r unigolyn ac aelodau'r teulu cyn y digwyddiad.
- Cael ac ystyried adroddiad drafft yr adolygiad ymarfer plant er mwyn sicrhau bod y cylch gorchwyl wedi'i fodloni, bod sylw wedi'i roi i'r rhagdybiaethau cychwynnol a bod unrhyw waith dysgu ychwanegol wedi'i nodi a'i gynnwys yn yr adroddiad terfynol.
- Cytuno ar gasgliadau o'r adolygiad a'r cynllun gweithredu amlinellol a gwneud trefniadau i'w cyflwyno i'r Bwrdd er mwyn iddo eu hystyried a chytuno arnynt.
- Cynllunio trefniadau ar gyfer rhoi adborth i aelodau'r teulu a rhannu cynnwys yr adroddiad ar ôl i'r adolygiad ddod i ben a chyn cyhoeddi'r adroddiad.

Tasgau'r Bwrdd Diogelu Plant

- Ystyried unrhyw bwyntiau dysgu o ran y Bwrdd sydd i'w hymgorffori yn yr adroddiad terfynol neu'r cynllun gweithredu, a chytuno arnynt.
- Y Panel Adolygu yn cwblhau'r adroddiad a'r cynllun gweithredu.
- Y Bwrdd yn anfon yr adroddiad a'r cynllun gweithredu at asiantaethau perthnasol i gael sylwadau terfynol cyn eu cymeradwyo a'u cyflwyno i Lywodraeth Cymru.
- Cadarnhau trefniadau er mwyn i'r Is-grŵp Adolygiadau reoli'r cynllun gweithredu amlasiantaethol, gan gynnwys sut y caiff y gwelliannau a ddisgwyli'r i wasanaethau eu nodi, eu monitro a'u hadolygu.
- Cyhoeddi'r cynllun ar wefan y Bwrdd.
- Cytuno i ddsbarthu'r adroddiad i asiantaethau, gwasanaethau perthnasol a gweithwyr proffesiynol.
- Bydd Cadeirydd y Bwrdd yn gyfrifol am bob sylw cyhoeddus ac am bob ymateb i unrhyw ddiddordeb gan y cyfryngau sy'n ymwneud â'r adolygiad, nes i'r broses gael ei chwblhau.

Cadeirydd y Panel

Adolygu

(Llofnod)

.....

Enw

(Priflythrennau)

.....

Dyddiad

.....

Atodiad 1: Cylch gorchwyl

Atodiad 2: Llinell amser gryno

Proses Adolygu Ymarfer Plant

Dylid cynnwys yma, yn gryno:

- *Y broses a ddilynwyd gan y Bwrdd a'r gwasanaethau sydd wedi'u cynrychioli ar y Panel Adolygu*
- *Bod digwyddiad dysgu wedi'i gynnal, gan nodi'r gwasanaethau a oedd yn bresennol*
- *Bod aelodau'r teulu wedi cael eu hysbysu, y gofynnwyd am eu barn, y cawsant eu cynrychioli drwy gydol y digwyddiad dysgu ac y darparwyd adborth iddynt.*

Gwrthododd y teulu gymryd rhan

At ddefnydd Llywodraeth Cymru yn unig

Y dyddiad y daeth yr wybodaeth i law

Y dyddiad yr anfonwyd y llythyr cydnabod at Gadeirydd y Bwrdd

Y dyddiad y dosbarthwyd yr wybodaeth i'r arolygiaethau/arweinwyr polisi perthnasol

Asiantaethau	✓	X	Rheswm
AGGCC			
Estyn			
AGIC			
Arolygiaeth Cwnstabiliaeth Mawrhydi	Ei		
Arolygiaeth Prawf Mawrhydi	Ei		